Rhan D – Gwella cyflawnrwydd a chywirdeb

Cynnwys

1 Diffiniad o gofrestr gyflawn a chywir

2 Ffynonellau o wybodaeth ar gyfer cofrestru etholiadol
- Edrych ar gofnodion eraill y cyngor
- Defnyddio data trydydd parti
- Hawl Swyddogion Cofrestru Etholiadol i ofyn am wybodaeth
- Y gronfa ddata eiddo

3 Casglu data am breswylwyr newydd
- Dulliau eraill o gyrraedd etholwyr

4 Uniondeb
- Ffurflenni amheus
- Gwrthwynebiadau ac adolygiadau

1 Diffiniad o gofrestr gyflawn a chywir

1.1 Mae gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol ddyletswydd i gymryd camau angenrheidiol i gynnal y gofrestr etholiadol.[1] Er mwyn cynnal cofrestr etholiadol gyflawn a chywir, nid yn unig mae angen sicrhau bod pob unigolyn sydd â hawl i gofrestru wedi'i gofnodi ond hefyd dileu cofnodion o'r gofrestr ar gyfer yr etholwyr hynny nad ydynt yn gymwys mwyach.

1.2 Mae dehongliad y Comisiwn o 'gyflawnrwydd' a 'chywirdeb' mewn perthynas â chofrestru etholiadol, yn seiliedig ar y gofynion deddfwriaethol ar gyfer cofrestru etholiadol ym Mhrydain Fawr, fel a ganlyn.

1.3 Ystyr cyflawnrwydd:

- Caiff pawb sydd â hawl i gael cofnod ar gofrestr etholiadol eu cofrestru.
- Ni chaiff unrhyw un nad oes ganddo hawl i gael cofnod ar gofrestr etholiad, yn cynnwys pobl ffug neu bobl sydd wedi marw, ei gofrestru.
- Caiff pob maes perthnasol ei gwblhau mewn perthynas â phob cofnod.

1.4 Ystyr cywirdeb:

- Nid yw'r wybodaeth ofynnol sy'n ymwneud ag unrhyw un sydd wedi'i gofrestru yn anwir neu'n anghywir, yn fwriadol neu fel arall.

1.5 Yn sylfaenol, ystyr 'cyflawnrwydd' felly yw sicrhau mai dim ond pobl gymwys a gaiff eu cynnwys ar y gofrestr etholwyr, tra bod 'cywirdeb' yn ymwneud â'r wybodaeth sydd ar y gofrestr yn unig heb ystyried p'un a ddylai fod ar y gofrestr ai peidio.

[1] Adran 9A, DCyB 1983.

2 Ffynonellau o wybodaeth ar gyfer cofrestru etholiadol

Edrych ar gofnodion eraill y cyngor

2.1 Mae gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol yr awdurdod i edrych ar gofnodion a gedwir ar ba ffurf bynnag, yn unol â'i ddyletswyddau cofrestru, gan:[2]

(a) y cyngor a wnaeth ei benodi ac unrhyw gofrestrydd genedigaethau a marwolaethau[3]

(b) unrhyw unigolyn, gan gynnwys cwmni neu sefydliad, sy'n darparu gwasanaethau i unrhyw awdurdod o'r fath, neu sydd â'r awdurdod i gyflawni unrhyw un o swyddogaethau awdurdod o'r fath, fel y diffinnir yn (a) uchod

2.2 Mae'r bobl, y cwmnïau a'r sefydliadau yn (b) uchod yn cynnwys y rhai sy'n darparu gwasanaethau 'ar gontract' o dan unrhyw gytundeb cyllid.

Yn Lloegr, mae'n bwysig nodi mai dim ond Swyddogion Cofrestru Etholiadol a benodir gan awdurdodau unedol a fydd â hawl i weld holl gofnodion y cyngor ar gyfer yr ardal. Ni chaiff cofnodion addysg, er enghraifft, eu cadw gan gynghorau dosbarth ond gan gynghorau sirol; ni fydd hawl gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol a benodir gan gyngor dosbarth weld y cofnodion hynny felly.

2.3 Mae gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol yr hawl hefyd i wneud copïau o unrhyw wybodaeth a gynhwysir yn y cofnodion hyn.[4]

2.4 Mae'n ofynnol i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ddefnyddio'r pwerau hyn fel y bo'n angenrheidiol er mwyn cynnal y gofrestr.[5] Mae'r ddyletswydd hon yn gymwys drwy'r flwyddyn ac nid dim ond yn ystod y cyfnod canfasio.

2.5 Er mwyn rhoi tystiolaeth bod y Swyddog Cofrestru Etholiadol wedi cyflawni ei ddyletswydd i gymryd y camau angenrheidiol o dan Adran 9A o DCyB 1983, dylai sicrhau y cedwir cofnod o holl gofnodion y cyngor a archwilir.

Deddf Diogelu Data 1998

2.6 Nid yw Deddf Diogelu Data 1998 yn atal y Swyddog Cofrestru Etholiadol rhag edrych ar bob un o gofnodion yr awdurdod a'i penododd cyhyd ag y caiff y data ei ddefnyddio at ddibenion cofrestru etholiadol.

2.7 Yn seiliedig ar ddehongliad y Comisiwn o Adran 9A o DCyB 1983, mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cynghori'r Comisiwn, gan fod gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol ddyletswydd gyfreithiol i archwilio cofnodion

[2] Rheoliad 35, RhCyB 2001.
[3] Yn yr Alban, y cofrestrydd genedigaethau, marwolaethau a phriodasau ydyw.
[4] Rheoliad 35(3), RhCyB 2001.
[5] Adran 9A(2)(d), DCyB 1983.

awdurdod lleol at ddibenion cynnal y gofrestr, bod awdurdodau lleol, o ganlyniad, o dan ddyletswydd gyfreithiol i ddatgelu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol, ac na fydd Deddf Diogelu Data 1998 'yn gweithredu fel rhwystr' i ddatgelu'r wybodaeth ofynnol.

Mae cyngor llawn y Comisiynydd Gwybodaeth fel a ganlyn:

Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi ein hysbysu bod gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol ddyletswydd o dan Adran 9A o DCyB 1983 i adolygu cynifer o gronfeydd data'r cyngor ag sydd eu hangen yn eu barn hwy at ddibenion cynnal y gofrestr etholiadol. Gan fod y ddyletswydd gyfreithiol hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ddatgelu gwybodaeth y gofynnir amdani gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol, ni fydd Deddf Diogelu Data 1998 yn gweithredu fel rhwystr i atal awdurdodau lleol rhag datgelu'r wybodaeth hon.

Dylai fod gan sefydliadau amod cyfreithlon dros brosesu cyn y gallant brosesu unrhyw ddata personol ac mae datgelu gwybodaeth i Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn ddull o brosesu. Ceir yr amodau yn Atodlen 2 ac, yn achos data personol sensitif, Atodlen 3 i'r Ddeddf Diogelu Data. Byddai'r amodau perthnasol ar gyfer yr amgylchiadau hyn fel a ganlyn *"ar gyfer arfer unrhyw swyddogaethau a roddir ar unrhyw un gan unrhyw ddeddfiad neu o dan unrhyw ddeddfiad"* (Atodlen 2(5)(b) ac Atodlen 3(7)(1)(b)) a gallai fod yn ddefnyddiol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gyfeirio eu hawdurdodau lleol at yr amodau hyn.

Dylai awdurdodau lleol hefyd gyfeirio at Adran 35(1) o'r Ddeddf Diogelu Data, sy'n datgan: *"Mae data personol wedi'i eithrio o'r darpariaethau peidio â datgelu lle y mae'r datgeliad yn ofynnol gan unrhyw ddeddfiad neu o dan unrhyw ddeddfiad, o dan unrhyw reol o'r gyfraith neu gan orchymyn llys"*. Yn gyffredinol, gellir diffinio'r darpariaethau peidio â datgelu fel yr adrannau o'r Ddeddf Diogelu Data sydd wedi'u cynllunio i ddiogelu data personol rhag cael ei ddatgelu'n anghyfreithlon. Dyma'r agweddau prosesu teg a chyfreithlon ar yr egwyddor gyntaf; yr ail, trydydd, pedwerydd a phumed egwyddor, Adrannau 10, 14(1) a (3).

Fodd bynnag, nid yw'r darpariaethau peidio â datgelu yn eithrio'r holl ddarpariaethau uchod yn gyffredinol, o dan bob amgylchiad. Ni fyddem yn ystyried bod y gofyniad prosesu teg yn ddarpariaeth peidio â datgelu yn y sefyllfa hon. Mae hyn oherwydd nad ydym o'r farn bod hysbysu gwrthrychau'r data bod awdurdodau lleol o dan rwymedigaeth gyfreithiol i ddatgelu data personol i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol, at ddibenion cynnal y gofrestr etholiadol, yn anghyson â'r datgeliad penodol hwnnw. Felly, credwn y dylai awdurdodau lleol hysbysu gwrthrychau'r data, cyn gynted ag y bo'n ymarferol gwneud hynny, y gallai eu data personol gael ei ddatgelu i Swyddogion Cofrestru Etholiadol, at ddibenion cynnal y gofrestr etholiadol. Byddem yn derbyn mai dull mwyaf ymarferol awdurdodau lleol o hysbysu gwrthrychau'r data yw pan gaiff hysbysiadau prosesu teg eu diweddaru'n rheolaidd. Fodd bynnag, byddem yn parhau i annog awdurdodau lleol i geisio sicrhau bod gwybodaeth am brosesu teg ar gael yn y cyfamser, e.e. ar eu gwefan neu drwy unrhyw ddull cyfleus arall.

2.8 Mae cofnodion a ddelir gan yr awdurdod lleol a'r cofrestrydd genedigaethau a marwolaethau yn debygol o gynnwys data personol am unigolion ac felly dylai unrhyw ymchwiliad gydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998. Mae'r Comisiwn yn argymell bod Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn cysylltu â'r Swyddog Diogelu Data yn eu hawdurdod lleol sy'n penodi i sicrhau bod unrhyw ymchwiliad a gynhelir ganddynt yn cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data.

2.9 Dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol fod yn ymwybodol o risgiau posibl storio data personol, p'un a gaiff ei gadw'n electronig neu ar ffurf copi caled, a dylai fod gweithdrefnau swyddfa priodol ar waith i sicrhau diogelwch y data hwn. Byddai'n werth ceisio cyngor gan Swyddog Diogelu Data yr awdurdod sy'n penodi a chan yr adran TG o ran pa weithdrefnau priodol y gellir eu mabwysiadu er mwyn lliniaru'r risgiau i ddiogelwch y data.

2.10 Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

The Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF
Ffôn: 08456 30 60 60
www.ico.gov.uk

Information Commissioner's Office – Scotland
93-95 Hanover Street
Edinburgh EH2 1DJ
Ffôn: 0131 301 5071
E-bost: scotland@ico.gsi.gov.uk

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – Cymru
Adeiladau'r Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL
Ffôn: 029 2044 8044
E-bost: wales@ico.gsi.gov.uk

Defnyddio data trydydd parti

2.11 Er na chafodd y cofnodion y gellir eu harchwilio eu llunio gan ystyried meini prawf cofrestru etholiadol ac er nad ydynt o bosibl yn rhoi'r holl wybodaeth sydd ei hangen ar Swyddog Cofrestru Etholiadol, gallant roi gwybodaeth rannol neu ychwanegol ddefnyddiol i gynorthwyo'r Swyddog Cofrestru Etholiadol â'i ddyletswyddau cofrestru. Dylid nodi er y gallai cofnodion gynorthwyo Swyddog Cofrestru Etholiadol i nodi pwy sydd heb ei gofnodi ar y gofrestr, rhaid i unrhyw gofnod newydd a wneir o dan y broses cofrestru treigl ddod trwy gyfrwng cais bob amser.

2.12 Dylid ymdrin â gwybodaeth a gesglir gan drydydd parti yn ofalus oherwydd efallai na fydd mor ddibynadwy â gwybodaeth a gesglir yn uniongyrchol gan y deiliad cartref neu'r ymgeisydd. Argymhellir felly bod gwybodaeth a geir gan drydydd parti yn cael ei groeswirio lle y bo'n bosibl er

mwyn ei ddilysu. Os nad yw hyn yn bosibl, dylid cadw cofnod o ffynhonnell y wybodaeth a'r camau a gymerwyd i'w chael.

Hawl Swyddogion Cofrestru Etholiadol i ofyn am wybodaeth

2.13 Os oes gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol unrhyw amheuon ynghylch cymhwyster unrhyw ymgeisydd, mae ganddo'r pŵer i'w gwneud yn ofynnol i unrhyw un roi **gwybodaeth** sy'n ymwneud â chymhwyster yr ymgeisydd hwnnw, o ran ei oedran, ei genedligrwydd, ei gartref a ph'un a yw'n anghymwys ai peidio.[6] Yn ogystal, os oes gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol amheuon ynghylch oedran neu genedligrwydd unrhyw ymgeisydd, gall hefyd ei gwneud yn ofynnol i'r unigolyn hwnnw roi **tystiolaeth** yn dangos ei fod yn bodloni'r naill ofyniad neu'r llall neu'r ddau ofyniad hyn. [7]

2.14 Ymhlith yr eitemau y dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol eu derbyn fel **tystiolaeth** o oedran neu genedligrwydd unigolyn mae:[8]

- tystysgrif geni neu ddatganiad statudol yn nodi dyddiad geni'r ymgeisydd
- tystysgrif dinasyddio
- dogfen yn dangos ei fod wedi dod yn ddinesydd y Gymanwlad
- datganiad statudol ei fod yn ddinesydd cymwys y Gymanwlad, yn ddinesydd yng Ngweriniaeth Iwerddon neu'n ddinesydd yn yr Undeb Ewropeaidd.

2.15 Dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ad-dalu'r ymgeisydd am y gost o lunio neu gopïo dogfennau ac mae ffioedd o'r fath yn draul cofrestru i'w dalu gan yr awdurdod lleol.[9]

2.16 Gall Swyddogion Cofrestru Etholiadol ei gwneud yn ofynnol bod **unrhyw un** yn rhoi **gwybodaeth** sydd ei hangen at ddibenion eu dyletswydd i gynnal cofrestrau etholwyr Seneddol ac etholwyr llywodraeth leol.[10] Mae'r pŵer hwn yn galluogi Swyddogion Cofrestru Etholiadol i gael gwybodaeth ac mae'n golygu, er enghraifft, y gellir ei gwneud yn ofynnol i gymdeithasau tai neu landlordiaid preifat roi gwybodaeth. Ym mhob achos, cynghorir Swyddogion Cofrestru Etholiadol i geisio cydweithredu yn gyntaf, yn hytrach na defnyddio'r bygythiad o gamau cyfreithiol; gallai egluro'r gyfraith fod yn ddigon i gyflawni'r effaith ddymunol.

2.17 Fodd bynnag, efallai y bydd achlysuron pan fydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol am gymryd camau cyfreithiol yn erbyn rhywun sydd wedi bod yn rhwystrol neu'n gwrthod cydweithredu'n barhaus. Mae unrhyw un sy'n gwrthod rhoi'r wybodaeth sy'n ofynnol i baratoi'r gofrestr yn atebol o dan gollfarn ddiannod i dalu dirwy nad yw'n fwy na lefel tri ar y raddfa safonol, a

[6] Rheoliad 23, RhCyB 2001.
[7] Rheoliad 24, RhCyB 2001.
[8] Rheoliad 24(2), RhCyB 2001.
[9] Rheoliad 24(3), RhCyB 2001.
[10] Rheoliad 23, RhCyB 2001.

bennir ar £1,000 ar hyn o bryd.[11] Mae unrhyw un sy'n darparu gwybodaeth anwir yn fwriadol mewn cysylltiad â chofrestru yn atebol o dan gollfarn ddiannod i dalu dirwy o hyd at £5,000, carchar am hyd at chwe mis, neu'r ddau.[12] Mae'n bwysig cofio nad yw rhywun yn euog o ddarparu gwybodaeth anwir os nad oedd yn gwybod, neu nad oedd ganddo reswm dros amau, bod y wybodaeth yn anwir.

Y gronfa ddata eiddo

2.18 I gynnal y gofrestr, bydd angen cronfa ddata eiddo gynhwysfawr ar y Swyddog Cofrestru Etholiadol er mwyn gallu canfasio darpar etholwyr yn eu hardal gofrestru. Gellir cymryd camau i sefydlu neu gynnal cronfa ddata eiddo gywir drwy gydol y flwyddyn, ac er bod canfaswyr a gyflogwyd i baratoi'r gofrestr yn werthfawr iawn o ran dod o hyd i eiddo nad yw ar y gronfa ddata bresennol, mae dulliau eraill o gael y wybodaeth hon. Gall y broses o archwilio cofnodion eraill awdurdodau lleol gynorthwyo'r Swyddog Cofrestru Etholiadol i nodi eiddo preswyl newydd a'r rhai y gwneir defnydd newydd ohonynt, yn ogystal â'r rhai sy'n wag, nad ydynt yn bodoli neu nad ydynt wedi'u hadeiladu eto.

2.19 Mae'n hanfodol y caiff pob eiddo ei osod yn y dosbarth pleidleisio cywir er mwyn sicrhau na chaiff etholwyr eu cynnwys yn yr ardal etholiadol anghywir. Bydd angen bod yn arbennig o ofalus yn hyn o beth mewn perthynas ag eiddo newydd. Gall y broses o archwilio cofnodion eraill awdurdodau lleol fel systemau mapio gael ei defnyddio i helpu i sicrhau y caiff eiddo ei osod yn gywir ar y gronfa ddata eiddo.

2.20 Bydd cysylltu â'r adrannau canlynol hefyd yn helpu i ddarparu data eiddo cywir.

2.21 **Y dreth gyngor:** Bydd y Swyddfa Prisio yn rhoi manylion am newidiadau i werthoedd ardrethol eiddo i swyddfa'r dreth gyngor, er enghraifft lle y caiff eiddo ei addasu o'r newydd, ei adeiladu neu ei ddymchwel. Gall y Swyddog Cofrestru Etholiadol ofyn am gopi o'r wybodaeth hon.

Yn yr Alban, caiff y broses o wirio cofnodion y dreth gyngor ei hwyluso gan y ffaith bod y rhan fwyaf o Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn Aseswyr hefyd sy'n gyfrifol am y rhestr brisio at ddiben ardrethi annomestig a'r rhestr brisio ar gyfer y dreth gyngor yn eu hardal.

2.22 **Cofrestr o gartrefi amlddaliadaeth:** Gall cartrefi amlddaliadaeth achosi rhai anawsterau i Swyddogion Cofrestru Etholiadol pan fyddant yn ceisio eu canfasio. Efallai na chaiff ffurflenni cofrestru etholiadol ar gyfer 'y Deiliad' eu cwblhau gan unrhyw un o'r preswylwyr, dim ond am fod y ffurflen ar gyfer 'Deiliad' yr adeilad ac nid ar gyfer unrhyw ystafell neu fflat yn benodol yn yr adeilad.

[11] Rheoliad 23(3), RhCyB 2001; Rheoliad 23(2), RhCyB (yr Alban) 2001.
[12] Adran 13D, DCyB 1983.

2.23 Cyflwynodd Deddf Tai 2004 ofyniad i drwyddedu cartrefi amlddaliadaeth yng Nghymru a Lloegr ar 6 Ebrill 2006. Mae Deddf Tai (yr Alban) 2006 yn gwneud darpariaethau tebyg mewn perthynas â chartrefi amlddaliadaeth yn yr Alban.

2.24 Yng Nghymru a Lloegr, fel rhan o'r cynllun trwyddedu, mae'n ofynnol i landlordiaid cartrefi amlddaliadaeth roi'r wybodaeth ganlynol i'r cyngor trwyddedu:

- enw a chyfeiriad y landlord a'r asiant rheoli (os oes un)
- nifer yr unedau a osodir ar wahân
- nifer y cartrefi yn y cartref amlddaliadaeth
- nifer y bobl sy'n byw yn y cartref amlddaliadaeth

2.25 Yn ogystal, bydd awdurdod lleol yn cynnal cofrestr gyhoeddus o'r trwyddedau a roddwyd ganddo, sy'n gorfod cynnwys nifer yr ystafelloedd yn y cartref amlddaliadaeth sy'n darparu:

- llety cysgu, a
- byw (neu, yn achos cartref amlddaliadaeth sy'n cynnwys fflatiau, nifer y fflatiau)

2.26 Yn yr un modd, yn yr Alban rhaid i landlordiaid roi gwybodaeth benodol i'r awdurdod lleol am y cartref amlddaliadaeth ac yn eu tro mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gynnal cofrestrau cyhoeddus sy'n cynnwys gwybodaeth am drwyddedau cartrefi amlddaliadaeth ar gyfer llety byw yn eu hardal.

2.27 Argymhellwn y dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol drefnu edrych ar y cofnodion hyn wrth adolygu eu cronfa ddata o eiddo er mwyn sicrhau bod pob cartref mewn cartref amlddaliadaeth yn cael ffurflenni cofrestru etholiadol ar wahân.

2.28 **Rheoli cynllunio ac adeiladu:** Gall gwybodaeth am ganiatâd cynllunio a rheoli adeiladu fod o werth i Swyddogion Cofrestru Etholiadol er mwyn cynnal eu cronfa ddata eiddo. Dylai'r adran rheoli datblygu allu darparu rhestrau rheolaidd o ganiatadau. Gall rhywfaint o'r wybodaeth ar y rhestr lawn o ganiatadau, fel caniatadau dibreswyl neu ganiatadau adeiladu rhestredig, fod yn amherthnasol i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol, ac felly dylid sicrhau nad ychwanegir unrhyw wybodaeth sy'n amherthnasol i'r gronfa ddata eiddo.

2.29 Dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol gadw cofnod o ganiatadau cynllunio amlinellol er gwybodaeth hyd nes y rhoddir caniatâd llawn. Mae'n bosibl na allai datblygwr ddechrau ar ddatblygiad am hyd at bum mlynedd a gallai manylion caniatâd gael eu newid cyn cynnal y datblygiad. Argymhellir bod caniatadau cynllunio yn cael eu monitro am bum mlynedd ond na chaiff y gronfa ddata eiddo ei diwygio hyd nes y cynhelir y datblygiad mewn gwirionedd.

2.30 Gall archwilio cofnodion rheoli adeiladau roi syniad hefyd o gynnydd datblygiadau newydd a ph'un a ydynt yn barod ar gyfer deiliadaeth breswyl.

2.31 **Rhestrau tir ac eiddo lleol (RhTELl) a rhestrau cyfeiriadau corfforaethol (RhCC):** Mae RhTELl yng Nghymru a Lloegr a RhCC yn yr Alban yn dod yn fwyfwy cyffredin mewn awdurdodau lleol, ac yn wir mae llawer o awdurdodau yn symud tuag at un gronfa ddata eiddo corfforaethol a gynhelir gan geidwad rhestrau. Yn y fath achosion, efallai na fydd yn bosibl i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol gael rheolaeth lwyr dros gronfa ddata eiddo benodedig ac felly mae'n hanfodol ei fod yn gweithio'n agos gyda cheidwad y rhestrau i sicrhau y caiff y gronfa ddata eiddo cofrestru etholiadol ei diweddaru'n gyflym ac yn gywir. Lle y bo'n bosibl, dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol ystyried cadw'r wybodaeth am y cyfeirnod eiddo unigryw a geir o'r ffynonellau hyn ar eu cronfeydd data eu hunain, y gellid eu defnyddio ynghyd â systemau gwybodaeth ddaearyddol, fel y nodir isod. Er y dylai rhestr gynhwysfawr a diweddar allu rhoi gwybodaeth am bob math o lety, yn cynnwys ystafelloedd a fflatiau mewn adeiladau, efallai y bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn canfod newidiadau i eiddo o hyd, y bydd angen eu bwydo i'r RhTELl neu'r RhCC fel y bo'n briodol.

2.32 **Systemau gwybodaeth ddaearyddol (SGDd):** Gall SGDd fod yn offeryn defnyddiol i ddod o hyd i eiddo ac i gynnal ffiniau ardaloedd canfasio a dosbarthiadau pleidleisio, yn ogystal â ffiniau etholiadol eraill. Gellir darparu mapiau i ganfaswyr i helpu i ddod o hyd i eiddo ac i olrhain cynnydd unrhyw ddatblygiadau newydd. Yn ogystal, gall defnyddio SGDd ochr yn ochr â data eiddo y cyfeirir ato'n briodol fod yn ddefnyddiol iawn wrth ddadansoddi amrywiadau yn y wybodaeth a gyflwynir, ac felly gall lywio'r broses o gynllunio sut y gall Swyddogion Cofrestru Etholiadol gyflawni eu dyletswyddau Adran 9A.

2.33 **Enwi strydoedd:** Bydd gorchmynion enwi a rhifo strydoedd yn rhoi gwybodaeth am eiddo, datblygiadau newydd ac unrhyw newidiadau i enwau strydoedd a chynlluniau rhifo ar stryd. Os na fydd y cyfryw wybodaeth wedi'i darparu eisoes gan yr adran sy'n gyfrifol am enwi a rhifo strydoedd, dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol ofyn amdani am y bydd o gymorth wrth gynllunio'r canfasiad.

2.34 **Y gwasanaethau cymdeithasol:** Bydd y gwasanaethau cymdeithasol yn gallu darparu rhestrau cyfredol o gartrefi preswyl a chartrefi gofal. Yn ogystal, efallai y bydd y gwasanaethau cymdeithasol yn gallu darparu manylion am rai pobl anabl sy'n byw gartref, fel y rhai sy'n ddall, yn fyddar, ac ati, a fydd yn galluogi'r Swyddog Cofrestru Etholiadol i deilwra'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu i'r cyfryw unigolion.

2.35 **Canfaswyr:** Dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol sicrhau bod canfaswyr yn cael cyfarwyddiadau clir ynglŷn â chofnodi a rhoi gwybod am faterion sy'n ymwneud ag eiddo, er enghraifft os cafodd adeilad ei ddymchwel, fflatiau yn cael eu troi'n ôl yn dŷ neu os codir adeilad newydd.

2.36 Mae gan lawer o eiddo masnachol a diwydiannol anheddau preswyl sydd ynghlwm wrthynt na allent fod yn amlwg, a dylid sicrhau y caiff y cyfryw eiddo ei ganfasio. Mae siopau yn un enghraifft o'r fath lle y gallai fod fflatiau wedi'u lleoli uwchben yr eiddo manwerthol, a gallai eu defnydd fel unedau preswyl amrywio o flwyddyn i flwyddyn; gallai cysylltu â pherchenogion siopau a chyflogeion helpu i nodi anheddau preswyl.

2.37 Gallai ffynonellau gwybodaeth allanol fod yn werthfawr hefyd. Gall y **Post Brenhinol**, er enghraifft, roi gwybodaeth am godau post. Cyhoeddir y wybodaeth ddiweddaraf am godau post yn flynyddol a gellir ei llwytho i lawr am ddim o www.royalmail.com/postcodeupdates. Gall Swyddogion Cofrestru Etholiadol hefyd gael codau post ar gyfer cyfeiriadau penodol, neu gyfeiriadau ar gyfer codau post, yn www.royalmail.com.

2.38 Gall llythyrau a ddychwelir fod yn arwydd bod y sawl sy'n byw yn y cyfeiriad wedi symud ymlaen neu, mewn rhai achosion, gallai rybuddio'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ynghylch cofrestriad twyllodrus. Dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol felly fonitro unrhyw bost a ddychwelir i'r swyddfa fel post na chyrhaeddodd ben ei daith yn barhaol. Os bydd gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol unrhyw bryderon ynghylch cywirdeb cofnod penodol ar gofrestr, o ganlyniad i'r gwiriadau hynny, dylai groesgyfeirio'r wybodaeth a ddelir ganddo â'r wybodaeth ar gofnodion eraill y cyngor. Os bydd ganddo'r adnoddau, efallai y bydd hefyd am wneud ymweliad personol. Os bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol, o ganlyniad i'r ymarfer paru data a/neu'r ymweliad personol, yn parhau i amau cofnod presennol, dylai gynnal adolygiad o'r broses gofrestru, y broses a nodir yn Rhan Ch, 'Addasiadau misol i'r gofrestr'.

2.39 Lle y caiff cardiau pleidleisio eu dosbarthu â llaw gan staff etholiadol, gellir defnyddio'r ymarfer hwn hefyd i gynnal gwiriad 'canol blwyddyn' o'r gronfa ddata.

2.40 **Cofrestrfa Tir/Cofrestrau'r Alban:** Gellir defnyddio'r ffynonellau hyn i gael gwybodaeth am berchenogion eiddo ac eiddo a werthir, a all roi gwybodaeth ddefnyddiol am newidiadau, yn enwedig gan y rhoddir enw'r prynwr sy'n caniatáu i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol anfon gohebiaeth bersonol.

3 Casglu data am breswylwyr newydd

3.1 Dylai archwilio cofnodion eraill y cyngor a'r hawl i ofyn am wybodaeth ategu neu gyflymu gweithgarwch cofrestru yn enwedig lle nad yw ymdrechion i gysylltu'n uniongyrchol â chartrefi, megis anfon ffurflenni canfasio blynyddol a chanfasio personol wedi cadarnhau p'un a yw'r bobl sy'n preswylio yno yn gymwys i gael eu cynnwys ar y gofrestr.

3.2 **Cofnodion y dreth gyngor:** Drwy archwilio cofnodion y dreth gyngor, gellid anfon ffurflen ganfasio bersonol neu ffurflen gofrestru dreigl i unigolyn a enwir yn y cofnod yn hytrach na'u hanfon i'r 'Deiliad'. Fodd bynnag, efallai na fydd yr unigolyn a enwir yng nghofnod y dreth gyngor yn gymwys i gofrestru i bleidleisio, er enghraifft os bydd yn berchen ar yr eiddo ond nad yw'n preswylio yno. Gellir defnyddio cofnodion y dreth gyngor hefyd i ddarparu tystiolaeth bod eiddo yn wag. Dylai'r hawl i weld y cofnodion gynnwys unrhyw sgriniau sy'n cynnwys unrhyw nodiadau ategol, gan y gallai'r manylion hyn helpu i egluro pwy sy'n preswylio mewn eiddo.

3.3 **Tai:** Gellir edrych ar gofnodion pob sefydliad rheoli hyd braich a chofnodion tai lle y mae'r cyngor yn cynnal y stoc dai yn uniongyrchol er mwyn cael manylion am denantiaid.

3.4 **Cofrestr o gartrefi amlddaliadaeth:** Fel yr eglurir yn fanylach yn Adran 2, 'Ffynonellau o wybodaeth ar gyfer cofrestru etholiadol', uchod, mae'r cofrestrau cartrefi amlddaliadaeth a gynhelir gan yr awdurdod yn cynnwys gwybodaeth am drwyddedau cartrefi amlddaliadaeth ar gyfer llety byw yn yr ardal.

3.5 Dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol ystyried edrych ar y cofnodion hyn a chysylltu â landlordiaid neu asiantau rheoli o ganlyniad er mwyn cael gwybodaeth am eu tenantiaid; er y gallai fod yn anodd iddynt roi'r holl wybodaeth angenrheidiol i hwyluso cofrestru, maent yn debygol o fod mewn sefyllfa i ddarparu enwau ac felly galluogi'r Swyddog Cofrestru Etholiadol i anfon gohebiaeth bersonol i'r preswylydd yn gofyn am y wybodaeth angenrheidiol.

3.6 **Cofrestrydd genedigaethau a marwolaethau:** Gall Swyddogion Cofrestru Etholiadol ddefnyddio gwybodaeth gan y cofrestrydd i ddiweddaru'r gofrestr etholwyr. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau i effeithiolrwydd yr ymarfer hwn: er enghraifft, dim ond marwolaethau o fewn eu hardal gofrestru a gofnodir gan gofrestryddion ac efallai na fydd hyn yn cyd-fynd â ffiniau'r Swyddog Cofrestru Etholiadol. Gallai fod yn angenrheidiol felly i gysylltu â mwy nag un cofrestrydd i gael gwybodaeth am yr ardal gofrestru gyfan.

3.7 Mae cofnodi marwolaethau ac addasu'r gofrestr yn unol â hynny yn lleihau'r tebygolrwydd o anfon cerdyn pleidleisio neu ffurflen ganfasio yn dangos enw'r sawl sydd wedi marw, a fydd yn osgoi achosi gofid i berthnasau'r unigolyn hwnnw. Gellir dileu enwau etholwyr sydd wedi marw o'r gofrestr fel rhan o'r weithdrefn hysbysiad o addasiadau fisol.

Ceir gwybodaeth bellach am y weithdrefn hysbysiad o addasiadau fisol yn Rhan Ch, 'Addasiadau misol i'r gofrestr'.

3.8 Gallai gwybodaeth a dderbynnir gan y cofrestrydd am briodasau hefyd ysgogi'r broses o anfon ffurflen hysbysiad o addasiad mewn perthynas â newid cyfenw a gallai hefyd ddangos bod preswylydd ychwanegol yn yr eiddo. Lle y bydd gan etholwr bleidlais absennol, dylid anfon ffurflen gais pleidlais absennol newydd er mwyn casglu'r llofnod newydd.

3.9 **Prifysgolion/sefydliadau addysg bellach:** Efallai y bydd yn briodol i swyddogion fynd i 'wythnosau'r glas' mewn prifysgolion er mwyn annog y sawl sy'n bresennol i gwblhau ffurflen cofrestru etholiadol. Yn yr un modd, efallai y bydd yn ddefnyddiol meithrin cydberthynas â staff sefydliadau neu golegau sy'n gyfrifol am helpu â threfniadau llety er mwyn cael manylion am fyfyrwyr.

3.10 Mewn prifysgolion neu sefydliadau addysgol eraill sy'n cwmpasu mwy nag un ardal gofrestru, efallai y bydd Swyddogion Cofrestru Etholiadol am ystyried gweithio gyda Swyddogion Cofrestru Etholiadol cyfagos eraill.

3.11 **Cartrefi preswyl:** Gallai wardeiniaid llety'r henoed helpu i roi gwybodaeth am newidiadau ymhlith preswylwyr. Dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol ystyried cadw cofnodion am y cyfryw sefydliadau, ac yn wir sefydliadau eraill fel hosteli sy'n darparu ar gyfer y rhai â chyflyrau iechyd meddwl, er mwyn cael gwybodaeth ac i roi cyngor ychwanegol i breswylwyr a wardeiniaid ar y broses gofrestru.

3.12 Efallai y gofynnir am gymorth y warden neu'r perchennog hefyd i roi gwybodaeth am unrhyw lety i staff, fel fflatiau neu randai, y bydd angen eu canfasio hefyd.

3.13 **Meysydd carafannau:** Efallai y bydd rhai pobl yn ystyried eu carafán fel eu hail gartref neu yn wir efallai y byddant yn byw yno'n barhaol. Efallai y bydd aelodau o'r gymuned deithiol hefyd yn ymgartrefu mewn maes carafannau am gyfnod o amser. Dylid cysylltu â rheolwyr safle'r meysydd hyn oherwydd gallant roi gwybodaeth i Swyddogion Cofrestru Etholiadol am newidiadau ymhlith preswylwyr.

3.14 Efallai y bydd teithwyr hefyd yn ymgartrefu mewn lleoliadau eraill sydd wedi'u dynodi gan yr awdurdod lleol. Bydd swyddogion mewn cynghorau unedol a chynghorau sirol yn gyfrifol am gynnal a chadw'r safleoedd dynodedig hyn ac efallai y gallant helpu Swyddogion Cofrestru Etholiadol i nodi'r rhai a fyddai'n gymwys i gofrestru.

I gael rhagor o fanylion am hawl teithwyr a pherchenogion ail gartrefi i gael eu cofrestru, gweler Rhan B, 'Hawl i gofrestru'.

3.15 **Llochesau, hosteli a'r digartref:** Dylai adran y cyngor sy'n gyfrifol am y digartref allu roi manylion am lochesau a hosteli. Gallai Shelter a sefydliadau

gwirfoddol eraill sy'n gweithredu yn yr ardal hon fod â gwybodaeth y gallai Swyddogion Cofrestru Etholiadol ei chael yn ddefnyddiol.

3.16 **Seremonïau dinasyddiaeth:** Efallai y bydd Swyddogion Cofrestru Etholiadol am gysylltu â'r rheini sy'n gyfrifol am seremonïau dinasyddiaeth er mwyn sicrhau bod ffurflenni cofrestru treigl yn cael eu cynnwys yn y pecyn croeso a lunnir ar gyfer y dinasyddion newydd, ac efallai y byddant hefyd yn ceisio dod o hyd i gyfeiriadau'r dinasyddion Prydeinig newydd er mwyn sicrhau y caiff y ffurflenni cofrestru hyn eu cwblhau a'u dychwelyd.

I gael rhagor o wybodaeth am ddinasyddiaeth a chymhwyster i gofrestru, gweler Rhan B, 'Hawl i gofrestru'.

Dulliau eraill o gyrraedd etholwyr

3.17 Mae'n rhaid i Swyddogion Cofrestru Etholiadol, drwy ddulliau eraill sy'n briodol yn eu barn hwy, gysylltu â phobl nad oes ganddynt gofnod ar y gofrestr, am fod hwn yn un o'r camau a restrir fel rhan o'r ddyletswydd i gymryd camau angenrheidiol i gynnal y gofrestr.[13] Mae'r ddyletswydd eang ei chwmpas hon yn berthnasol **ar unrhyw adeg o'r flwyddyn** ac nid yw'n gyfyngedig i'r cyfnod canfasio.

3.18 Yn ystod y cyfnod canfasio, dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol ystyried cysylltu ag ysgolion uwchradd a cholegau chweched dosbarth er mwyn sicrhau y caiff pobl ifanc 16 a 17 mlwydd oed eu nodi a'u bod yn ymwybodol o'r broses etholiadol, yn cynnwys sut i gofrestru i bleidleisio. Gall fod yn briodol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol neu eu staff fynd i'r Wythnos Ddemocratiaeth Leol neu ddigwyddiadau eraill mewn ysgolion neu golegau ac annog y rhai sy'n bresennol i gwblhau ffurflen cofrestru etholiadol. Os bydd yn bosibl, dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ystyried mynd â chopi electronig o'r gofrestr i unrhyw ddigwyddiadau o'r fath er mwyn osgoi cofrestru dyblyg.

3.19 Y tu allan i'r cyfnod canfasio, gellid anfon ffurflenni cofrestru treigl i gyfeiriadau lle y daw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn ymwybodol y gallai fod preswylwyr newydd, er enghraifft drwy wybodaeth a geir o gofnodion pridiannau tir neu gofnodion y dreth gyngor. Efallai y bydd Swyddogion Cofrestru Etholiadol hefyd yn ystyried sicrhau bod ffurflenni cofrestru ar gael drwy werthwyr tai neu asiantaethau gosod tai. Yn ychwanegol, efallai y bydd Swyddogion Cofrestru Etholiadol o'r farn ei bod yn briodol canfasio eiddo yn bersonol lle y nodwyd y gallai fod preswylwyr newydd.

3.20 Mae dulliau anffurfiol o gael gwybodaeth hefyd, fel ffonio deiliad y cartref neu holi cymydog, a allai fod yn briodol mewn rhai amgylchiadau. Weithiau bydd canfaswyr personol yn siarad â rhywun ar garreg drws eiddo a bydd yr unigolyn yn honni nad yw'n byw yn yr eiddo ond bydd yn rhoi gwybodaeth ar lafar iddynt o hyd. Drwy wneud a chadw nodiadau ffeil manwl, gellir gwirio cywirdeb y wybodaeth a gafwyd yn y ffordd hon. Os bydd yn bosibl, dylid

[13] Adran 9A(2)(c), DCyB 1983.

croeswirio gan ddefnyddio ffynhonnell arall hefyd. Fel arall, gellid anfon llythyr yn cadarnhau'r wybodaeth a gafwyd at ddeiliad yr eiddo, gan nodi pwy gaiff ei gofrestru mewn perthynas â'r cyfeiriad hwnnw.

4 Uniondeb

4.1 Mae ystyried materion uniondeb yn hanfodol i allu'r Swyddog Cofrestru Etholiadol i lunio cofrestr gyflawn a chywir, a hefyd i gynnal cofnodion pleidleisio absennol.

Ffurflenni amheus

Beth y dylech chwilio amdano?

4.2 Mae staff etholiadol mewn sefyllfa unigryw i adnabod achosion o dwyll neu ymgais i gyflawni twyll. Dylent fod yn wyliadwrus o:

- nifer o ffurflenni a gwblhawyd â'r un llawysgrifen
- nifer fawr o ffurflenni o'r un eiddo neu achos o drefniadau byw annhebygol (e.e. 10 o bobl mewn fflat)
- nifer uchel iawn neu isel iawn o ffurflenni'n cael eu dychwelyd yn ystod y cyfnod canfasio, sy'n ymddangos yn amheus ac a allai awgrymu bod y canfasiwr yn 'canfasio o'i gadair freichiau' neu nad yw'r canfasiwr na'r postmon yn dosbarthu'r ffurflenni

4.3 Mae'n bwysig ystyried y weithdrefn ar gyfer ymdrin ag ildiad o ran y gofyniad i roi llofnod ar gyfer pleidlais absennol. Mae gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol y pŵer i ildio'r gofyniad i roi llofnod os gall fodloni'i hun 'na all yr ymgeisydd roi llofnod neu lofnod cyson o ganlyniad i anabledd neu anallu i ddarllen neu ysgrifennu'.[14] Dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ystyried cymryd camau i sicrhau bod cais am ildiad yn un dilys ac nad yw'n ymgais i osgoi'r gweithdrefnau diogelwch.

I gael rhagor o wybodaeth am ildiadau, gweler Rhan E, 'Pleidleisio absennol'.

Camau i'w cymryd

4.4 Os bydd Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cael cais i gofrestru sy'n creu amheuaeth, mae ganddo'r pŵer i ofyn am ragor o wybodaeth er mwyn gallu gwneud penderfyniad ar y cais.[15]

4.5 Mae'r canlynol yn rhai camau awgrymedig y dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ystyried eu cymryd er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â materion yn ymwneud ag uniondeb yn drwyadl:

[14] Paragraffau 3(8), 4(5) a 7(11), Atodlen 4, DCyB 2000; Erthyglau 9(7), 10(7) a 12(11), Gorchymyn Senedd yr Alban; Erthyglau 8(8), 9(5) a 12(12), Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007.
[15] Rheoliad 29(3), RhCyB 2001.

- Dylid gwirio ffurflenni yn ofalus a briffio staff cofrestru yn llawn ar yr angen i fod yn effro i unrhyw afreoleidd-dra wrth gofrestru neu ffurflenni amheus.
- Dylid hyfforddi canfaswyr hefyd i sylwi ar unrhyw afreoleidd-dra, e.e. os byddant yn casglu ffurflen o eiddo sy'n cynnwys llawer mwy o enwau nag y byddent yn eu disgwyl o eiddo o'r maint hwnnw.
- Gellir cymryd camau i atal achosion o dwyll gan y canfaswyr eu hunain (e.e. yr hyn a elwir yn 'ganfasio o'r gadair freichiau') drwy fonitro eu gwaith yn ofalus. Dylai fod yn ofynnol i ganfaswyr gadw cofnodion, yn cynnwys dyddiad ac amser yr holl ymweliadau a wnânt. At hynny, dylid hysbysu staff y cynhelir gwiriadau o'u gwaith, boed yn hapwiriadau a/neu wirio canran o gyfanswm y ffurflenni a ddychwelir.
- Dylid cydnabod ceisiadau cofrestru ar ôl eu derbyn. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r sawl sy'n byw yn y cyfeiriad ar y ffurflen wrthwynebu cais pe bai rhywun wedi defnyddio ei gyfeiriad at ddibenion twyllodrus.
- Rhaid anfon llythyr cydnabyddiaeth at yr etholwr unwaith y gwnaed newid i'r gofrestr.
- Dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol ystyried ffonio ymgeisydd neu anfon e-bost ato, lle y darparwyd y manylion cyswllt hyn, os bydd angen eglurhad ynghylch unrhyw fanylion ar gais i gofrestru.
- Mae cartrefi nyrsio a chartrefi gorffwys yn gofyn am sylw arbennig o ran rhoi cyngor i staff ynghylch faint o gymorth y gallant ei roi i breswylwyr. Gellid rhoi cyngor tebyg i gynorthwywyr cartref a staff eraill y gwasanaethau cymdeithasol.
- Dylid tynnu enwau etholwyr nad ydynt yn preswylio mwyach oddi ar y gofrestr, gan ddefnyddio'r pŵer i gynnal adolygiad lle y bo'n briodol.
- Nid oes unrhyw ddeddfwriaeth ar gadw ffurflenni cofrestru, ond byddai eu cadw am oes y gofrestr yn arfer da. Byddai hyn yn golygu y gellir cynnal gwiriadau os nodir unrhyw wallau clercol neu os ceir ymchwiliad i achos o gamymddwyn.

4.6 Os tybir bod cais i gofrestru yn amheus, mae nifer o gamau y gellir eu cymryd i ddilysu'r cais. Gellir cysylltu â'r ymgeisydd a gofyn iddo roi gwybodaeth ychwanegol, neu gellir gwirio cofnodion eraill. Fel arall, efallai y bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol o'r farn ei bod yn briodol cynnal gwrandawiad er mwyn penderfynu ar hawl yr ymgeisydd i gael ei gofrestru.

I gael rhagor o wybodaeth am wrandawiadau, gweler Rhan Ch, 'Addasiadau misol i'r gofrestr'.

Camau pellach

4.7 Nid oes gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol unrhyw bŵer i ymchwilio ymhellach i geisiadau y tybir eu bod yn amheus o hyd yn dilyn y gweithdrefnau gwirio a ddisgrifir uchod. Dylai unrhyw geisiadau o'r fath gael eu cyfeirio at yr heddlu wedyn. Gall Swyddogion Cofrestru Etholiadol roi cyngor i'r Comisiwn ar yr achosion pan ddylid cyfeirio amheuon at yr heddlu a gallant roi manylion cyswllt Pwynt Cyswllt Unigol eu heddlu lleol. Cynghorir

Swyddogion Cofrestru Etholiadol i gysylltu â'r Pwynt Cyswllt Unigol beth bynnag, a dylent allu esbonio pa gamau y dylid eu cymryd lle y ceir unrhyw amheuon.

4.8 Ymhlith y ddogfennaeth y byddai angen i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ei rhoi i'r heddlu pe gofynnwyd amdani mae:

- Yr holl bapurau a gafwyd (yn cynnwys amlenni), wedi'u selio mewn pecyn neu amlen. Dylai staff geisio osgoi trafod y ddogfennaeth.
- Copïau o'r dogfennau mewnol a ddefnyddir i gynnal gwiriadau mewnol (e.e. cofnodion y dreth gyngor).

4.9 Yn ychwanegol, dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol roi gwybod i'r Comisiwn am unrhyw geisiadau amheus, gan ei fod yn cadw cofnodion ac yn ystyried patrymau digwyddiadau o'r fath.

Gwrthwynebiadau ac adolygiadau

4.10 Mae'r pwerau sy'n caniatáu i wrthwynebiadau gael eu gwneud i gofrestriad rhywun cyn neu ar ôl gwneud y cofnod,[16] ynghyd â'r pwerau sy'n caniatáu i Swyddog Cofrestru Etholiadol gynnal adolygiad o hawl i gofrestru,[17] yn gyfryngau pwysig i gynnal uniondeb y gofrestr.

I gael rhagor o wybodaeth am wrthwynebiadau ac adolygiadau, gweler Rhan Ch, 'Addasiadau misol i'r gofrestr'.

[16] Adran 10A(3) a (3A), DCyB 1983.
[17] Rheoliadau 31B a 31D, RhCyB 2001.